

Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch: Unigolion



Nod Cronfa Cymorth mewn Angen Penarlâg a'r Cylch yw helpu unigolion ag adnoddau cyfyngedig neu'r rhai sy'n cael eu hystyried mewn argyfwng. Mae unigolion yn gofyn i sefydliad cofrestredig wneud cais ar eu rhan ac i weithredu fel cyfeiriwr.

Defnyddiwyd cyllid o Gronfa Cymorth Angen Penarlâg a'r Cylch ar gyfer unigolion yn flaenorol i:

- brynu eitemau cartref hanfodol, e.e. nwyddau gwynion, dillad gwely, a charpedi, ac ati.
- prynu eitemau sy'n hanfodol i leddfu dioddefaint tlodi bwyd a thanwydd (e.e. parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, dillad cynnes, atgyweiriadau boeleri).
- gwneud atgyweiriadau hanfodol i eiddo a/neu ailaddurno.

Grantiau ar gael

Gall sefydliadau sy'n gwneud cais ar ran unigolyn wneud cais am grantiau hyd at £1,000 y flwyddyn (cyfnod treiglol o 12 mis).

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.

Pwy all wneud cais?

- Unigolion sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg, sy'n cynnwys y wardiau modern canlynol: Aston, Gogledd Dwyrain Brychdyn, Bwcle Pentrobin, Ewlo, Penarlâg, Mancot, Queensferry, Cyffordd Yr Wyddgrug Saltney, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Higher, Gorllewin Shotton.
- Mae angen i unigolion fod wedi'u cofrestru a gweithio gyda sefydliad sydd eisoes yn eu cefnogi. Mae sefydliadau fel adrannau cyngor lleol, y GIG a chyrff iechyd, Gofal a Thrwsio, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth Lleol, Cyngor Gwirfoddol Lleol, wedi gwneud cais o'r blaen ar ran unigolion i'r Gronfa.
- Bydd y sefydliad yn gwneud cais ar ran yr unigolyn. Bydd angen i'r sefydliad fod wedi'i gofrestru gyda Sefydliad Cymunedol Cymru a bod yn barod i weithredu fel ymgeisydd ar ran yr unigolyn ac fel cyfeiriwr.

Sut i wneud cais?

Mae dwy ffurflen gais ar wahân y gellir eu cyflwyno ar-lein - *gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y llwybr cywir.*

- Sefydliadau sy'n gwneud cais ar ran unigolyn.
- Sefydliadau/Grwpiau sy'n gwneud cais am brosiect cymunedol er budd grŵp o unigolion.

Gellir gweld y ddwy ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan.

Nodwch:

- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, ac mae'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi a'u dychwelyd.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario grantiau yn llawn o fewn blwyddyn ar ôl derbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.